# Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer pobl ifanc Cymreig yn y system cyfiawnder ieuenctid

## Mai 2005

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

...Rhagoriaeth i bawb... …Excellence for all…

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir wrth fynd i'r wasg. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad at:


Adran Cyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at publications@estyn.gsi.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)**



**© Hawlfraint y Goron 2005: Gellir ailddefnyddio'r ddogfen/cyhoeddiad (ac eithrio'r logos adrannol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhai nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cefndir** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| Sail dystiolaeth y cyngor | **3** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Y bobl ifanc** | **6** |
| **Darpariaeth addysg a hyfforddiant** | **6** |
| Pa mor dda y mae pobl ifanc yn cyflawni? | **6** |
| Pa mor effeithiol yw’r addysgu a’r hyfforddi? | **9** |
| Pa mor dda y mae’r cwricwlwm yn cwrdd ag anghenion a diddordebau pobl ifanc? | **9** |
| Ansawdd y gofal a’r cyfarwyddyd y mae pobl ifanc yn eu cael | **10** |
| Rôl y gweithiwr addysg TîM Troeseddwyr Ifanc (TTI) | **11** |
| Rôl yr AALl | **12** |
| **Y defnydd o gynllunio cyfiawnder ieuenctid y TTI ar gyfer materion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth** | **13** |
| **Defnydd ac ymwybyddiaeth o’r Partneriaethau Pobl Ifanc** | **13** |
| **Materion allweddol** | **14** |
| **Atodiad 1 Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid 2004/5** | **17** |

## Cefndir

1. Mae ‘Cymru Well’ yn gosod gwerthoedd craidd y Cynulliad Cenedlaethol sef cynhwysiant cymdeithasol, cyfle cyfartal a hyrwyddo cymdeithas oddefgar lle caiff amrywiaeth ei werthfawrogi. Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gwneud Cymru yn gwbl gynhwysol a gwneud ei heconomi a’i chymunedau’n gynaliadwy. I gyflawni hyn, rhaid helpu pob person ifanc, gan gynnwys y rhai yn y system cyfiawnder ieuenctid, i gyflawni eu potensial mewn addysg a hyfforddiant.

2. Mae Papur Gwyn “No More Excuses” 1997 a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod ymagwedd newydd at fynd i’r afael â throseddu gan bobl ifanc. Prif nod yr ymagwedd hon yw atal troseddu. Mae’n ofynnol i awdurdodau lleol gydweithredu â phartneriaid yn y gymuned i sicrhau bod ystod briodol o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ar gael yn eu hardal ac i lunio cynllun cyfiawnder ieuenctid blynyddol ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI). Cyfrifoldeb y Timau Troseddau Ieuenctid (TTI) yw cydlynu’r ddarpariaeth leol hon a sicrhau mynediad i wasanaethau’r brif ffrwd i bobl ifanc. Mae 17 TTI yng Nghymru. Maent yn atebol i’r BCI ac yn cael eu monitro ganddo. Nod rhaglenni ymyriad TTIau yw gwneud i bobl ifanc wynebu canlyniadau eu troseddau a dysgu i newid arferion ac agweddau sy’n eu harwain at droseddu ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Mae’r rhaglenni ymyriad hyn yn cynnwys:

- gorchmynion rhianta;
- gorchmynion ymddygiad gwrth-gymdeithasol;
- gwyliadwriaeth a goruchwyliaeth ddwys;
- gorchmynion gwneud iawn; a
- gorchmynion carcharu a hyfforddi yn y ddalfa neu yn y gymuned.

3. Yn aml iawn, y bobl ifanc sy’n cael eu goruchwylio a’u cefnogi gan TTIau yw’r rhai sy’n ymwneud leiaf ag addysg a hyfforddiant. Pa bynnag orchymyn a ddefnyddir, nod y TTI yw sicrhau bod y person ifanc yn cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn fel y gall ef neu hi baratoi ar gyfer dyfodol mwy cynhyrchiol. Er mwyn gwneud y gwaith hwn yn llwyddiannus, mae TTIau yn cynnwys person a enwebir gan brif swyddog addysg yr awdurdod lleol.

4. Mae ‘Ymestyn Hawliau’[1] a’r ‘Fframweithiau ar gyfer Partneriaethau’[2] yn gosod hawliau cyffredin sylfaenol ar gyfer pob person ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae’r hawliau hyn yn cynnwys addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith sydd wedi’u teilwra ar gyfer eu hanghenion. Mae’r hawliau hyn yn hynod bwysig ar gyfer pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid sy’n cael eu goruchwylio gan TTIau. Mae’n debygol mai addysg a hyfforddiant yw’r ffactorau gwarchodol adnabyddadwy pwysicaf wrth leihau troseddu

[1] Ymestyn Hawliau: cefnogi pobl ifanc yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002
[2] Canllawiau cynllunio trosfwaol y fframwaith plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002

ac aildroseddu.[3] Mae anawsterau mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu yn gysylltiedig yn agos â risg ailgollfarnau yn y dyfodol.[4]

5. Caiff anawsterau fel triwantiaeth a gwaharddiadau cyson eu cysylltu'n gryf â throseddu. Yn 2002/3, dim ond 63% o bobl ifanc a droseddodd neu a oedd mewn perygl o droseddu, a oedd yn hysbys i TTIau Cymru, oedd mewn addysg amser llawn[5]. Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc dan oruchwyliaeth TTIau yng Nghymru a Lloegr yn cael anawsterau gyda'u haddysg. Mae hanner y bobl ifanc yn tangyflawni yn yr ysgol, mae angen cymorth ar draean ohonynt gyda darllen ac ysgrifennu ac mae gan hanner cymaint eto ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae gan dros hanner y bobl ifanc sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, y mae'r rhan fwyaf ohonynt dros 15 oed, oedran darllen islaw lefel plentyn un ar ddeg oed arferol. Ni chaiff llawer o bobl ifanc sy'n troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu y cymorth y mae arnynt ei angen i fynd i mewn i addysg a hyfforddiant amser llawn ac aros yno. Gall pobl ifanc sydd wedi'u gwahardd yn barhaol aros hyd at flwyddyn am leoliad ysgol arall. Yn aml, ceir rhestr aros hir ar gyfer lleoliadau mewn unedau cyfeirio disgyblion[6] ac addysg ar wahân i'r ysgol.

6. Mae Strategaeth Troseddwyr Ieuenctid Cymru Gyfan[7] yn gosod strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer atal troseddu yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd addysg a hyfforddiant priodol wrth atal troseddu a gwna gysylltiadau cryf ag 'Ymestyn Hawliau'. Mae darparu trefniadau addysg a hyfforddiant sy'n cwrdd ag anghenion y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yn un o'r camau allweddol a nodir yn y strategaeth. Mae'r strategaeth yn mynnu bod plant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n mynd i gyfleusterau'r ddalfa yn Lloegr yn cael yr un hawliau â'u cymheiriaid yn Lloegr a phlant a phobl ifanc eraill yng Nghymru.

## Cyflwyniad

7. Roedd cylch gwaith Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2004-05 yn cynnwys cais am gyngor ar ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru am wybodaeth am yr addysg a'r hyfforddiant a gynigir i bobl ifanc dan oruchwyliaeth TTIau, wedi'i gosod yn

[3] Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, prif elfennau arfer effeithiol, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2003
[4] Prosiect cynnal diddordeb pobl ifanc. Crynodeb gweithredol yr arfarniad interim o arfer dda wrth ddatblygu gallu ailgynnwys ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Blwyddyn 1 Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2004
[5] Datganiad ysgrifenedig y cabinet gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.
[6] Cyfiawnder Ieuenctid 2004, adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid ddiwygiedig. Comisiwn Archwilio
[7] Strategaeth Troseddwyr Ieuenctid Cymru Gyfan 2004, Llywodraeth Cynulliad Cymru

erbyn unrhyw ofynion cyfreithiol. Yn ddiweddar, sefydlodd y Cynulliad Cenedlaethol brosiect dysgu troseddwyr ifanc. Cynlluniwyd y prosiect hwn i wella'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant sydd ar gael i bob person ifanc 11-25 oed yng Nghymru ac o Gymru sy'n hysbys i TTIau neu sy'n gleientiaid y system cyfiawnder troseddol. Bydd y cyngor a roddir gan Estyn trwy'r adroddiad hwn yn cefnogi'r gwaith hwn.

8. Cynigia'r adroddiad hwn sylwadau ar brofiad addysgol blaenorol y bobl ifanc a lle bo'n bosibl, y safonau a gyflawnir ganddynt. Cynigia sylwadau hefyd ar ansawdd yr addysgu a'r cymorth y mae pobl ifanc yn ei gael fel y gallant:

- gael mynediad i gwricwlwm priodol ac ennill achrediad;
- ailintegreiddio'n llwyddiannus i leoliadau addysg a hyfforddiant;
- cymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant;
- cymryd mantais o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; a
- chwarae rôl gynhyrchiol ym mywyd eu cymunedau.

9. Cynigia'r adroddiad sylwadau hefyd ar:
   - rôl y gweithiwr addysg TTI; a
   - lefel yr ymwybyddiaeth mewn TTIau o rôl y Partneriaethau Pobl Ifanc; a'r
   - defnydd a wna TTIau ohonynt.

## Sail dystiolaeth y cyngor

10. Rhwng Ebrill 2004 a Chwefror 2005, cymerodd Estyn ran mewn pum arolygiad o TTIau yng Nghymru, arolygiad o gartref diogel i blant awdurdod lleol Cymreig (LASCH), un sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghymru a dau sefydliad troseddwyr ifanc (STI) yn Lloegr sy'n derbyn niferoedd mawr o ddynion ifanc o Gymru. Mae'r cyngor hwn yn tynnu ar ganfyddiadau'r arolygiadau hyn. Yn ogystal, defnyddiwyd tystiolaeth gennym o holiaduron ac ymweliadau â thri TTI. Yn ystod yr ymweliadau hyn, astudiwyd dogfennau gennym a chynhaliwyd trafodaethau gyda staff TTI a phartneriaid ac asiantaethau allweddol.

11. Rydym wedi astudio'r cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer TTIau Cymru ac wedi defnyddio ymatebion dau TTI yng Nghymru i holiadur y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r ddarpariaeth yn y 2 TTI yn Lloegr ar gyfer dynion ifanc o Loegr a Chymru. Addysgir y ddau grŵp gyda'i gilydd, felly mae ein sylwadau'n berthnasol i'r ddau grŵp. Fodd bynnag, cynigiwn sylwadau ar faterion sy'n ymwneud â dynion ifanc o Gymru yn unig. At ddibenion yr adroddiad hwn, disgrifir sefydliadau lle mae pobl ifanc yn y ddalfa fel ystâd ddiogel. Mae pobl ifanc sy'n cael gorchmynion cadw a hyfforddiant yn treulio rhan gyntaf eu dedfryd yn y ddalfa ac yna'n dychwelyd i'w cymunedau, ond maent yn parhau dan oruchwyliaeth y TTI hyd nes cwblhau eu dedfryd.

## Prif ganfyddiadau

12. Mae llawer o bobl ifanc sy'n troseddu wedi cael profiad gwael o'r ysgol, nid ydynt yn ymddwyn yn dda a chawsant eu gwahardd yn barhaol. Fodd bynnag pan fyddant yn y ddalfa, gwna rhan fwyaf y bobl ifanc gynnydd da mewn addysg a hyfforddiant. Nid dyma'r achos ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n aros yn y gymuned neu sy'n dychwelyd i'r gymuned dan oruchwyliaeth y TTI. Mae'r bobl ifanc hyn yn cael llai o gyfleoedd i gael addysg a hyfforddiant priodol eu na'u cymheiriaid yn yr ystâd ddiogel. Nid yw gweithwyr addysg TTI bob amser yn cael digon o ddylanwad dros ysgolion ac AALlau er mwyn sicrhau lleoliadau addysgol amser llawn ar gyfer pobl ifanc ac nid oes digon o gyfnewid gwybodaeth dda rhwng yr ystâd ddiogel, TTIau a lleoliadau addysgol. Mae'r cyswllt gwael hwn yn arwain at ddiffyg parhad ac anawsterau o ran cynllunio'n effeithiol ar gyfer pobl ifanc.

13. Pan fydd pobl ifanc yn parhau yn y gymuned neu'n dychwelyd iddi dan oruchwyliaeth y TTI, ni chaiff eu safonau cyflawniad a'u cyrhaeddiad mewn dysgu ffurfiol eu cofnodi na'u harfarnu. Y rheswm am hyn yw bod targedau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ymwneud â lefel cyfranogiad y bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant yn hytrach na'r safonau a gyflawnant. Ar hyn o bryd, ni chesglir data gan y BCI na chan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyrhaeddiad neu gyflawniadau unigolion neu'r grŵp o bobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan TTIau. Golyga hyn nad yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu arddangos bod y grŵp hwn wedi elwa'n addysgol ar ymyriad y TTI.

14. Yn ogystal, nid yw'r safonau ar gyfer yr arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid, a sefydlwyd dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, yn cynnwys ansawdd yr addysg a ddarperir, y safonau a gyflawnir gan bobl ifanc neu eu canlyniadau.

15. Ceir rhwystrau arwyddocaol i bobl ifanc o Gymru yn yr ystâd ddiogel rhag cael eu hawl llawn i addysg a hyfforddiant priodol. Gall y rhwystrau hyn gael effaith negyddol ar eu dysgu ac mae'n gwneud eu hailintegreiddio i'r ysgolion yn anos. Prif ganfyddiadau'r cyngor hwn yw bod:

- Llawer o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid wedi cael profiad gwael yn yr ysgol, mae ganddynt hanes o bresenoldeb gwael neu maent wedi cael eu gwahardd o'r ysgol. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, mae ganddynt fedrau sylfaenol gwael ac maent yn ei chael hi'n anodd dod ymlaen gyda phobl eraill.

- Gwna'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn yr ystâd ddiogel yn dda mewn addysg a hyfforddiant ac maent yn eu mynychu'n rheolaidd. Rhydd hyn y parhad a'r hyder sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen at ddysgu pellach.

- Pan na fydd pobl ifanc yn yr ystâd ddiogel yn cyflawni, y rheswm am hyn weithiau yw nad yw'r gwaith a osodir yn ddigon heriol. Mae'n rhaid iddynt

ailwneud gwaith ac nid ydynt yn elwa ar dargedau unigol penodol ar gyfer gwaith ac ymddygiad.  Yn STI Ashfield, mae gormod o bobl ifanc yn colli dosbarthiadau addysg.

- Ceir enghreifftiau da o gyfleoedd dysgu anffurfiol lle mae pobl ifanc yn cael eu goruchwylio gan TTI ac yn parhau yn y gymuned neu'n dychwelyd iddi.

- Cynigia'r rhan fwyaf o athrawon ar draws yr ystâd ddiogel brofiadau addysg a hyfforddiant cadarnhaol i bobl ifanc.  Lle mae'r addysgu'n dda, gwna athrawon ddefnydd da o asesu i gynllunio'u gwersi'n dda a chyfateb gwaith i alluoedd, anghenion a diddordebau.

- Nid yw STIau yng Nghymru a Lloegr yn cynllunio gwaith i gwrdd â gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru er gwaethaf derbyn pobl ifanc o Gymru o oed ysgol statudol.  Gwna hyn ailintegreiddio i ysgolion y bobl ifanc yn anos pan fyddant yn dychwelyd i'w cymunedau.

- Nid yw staff addysgu ar draws yr ystâd ddiogel, ar wahân i LASCH Hillside, yn ymwybodol o'r Cwricwlwm Cymreig ac nid ydynt yn cynllunio ar ei gyfer.

- Nid yw pobl ifanc ar draws yr ystâd ddiogel, yng Nghymru a Lloegr, yn cael cyfle i ddysgu neu siarad Cymraeg ar wahân i pan fyddant mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

- Nid oes digon o gyfleoedd yn yr ystâd ddiogel i bobl ifanc weithio ar gyrsiau lefel uwch y tu hwnt i'r lefel sylfaen neu i gael eu hachredu ar gyfer eu gwaith ar fedrau bywyd.  Mae llawer o bobl ifanc yn methu gorffen eu cyrsiau pan fyddant yn dychwelyd i'r gymuned.

- Ni chaiff athrawon yn yr ystâd ddiogel wybodaeth dda, ac yn benodol ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, gan leoliadau addysg a hyfforddiant blaenorol pobl ifanc.  Gwna hyn cynllunio effeithiol yn anodd ac mae'n gwastraffu amser gwerthfawr gan fod pobl ifanc yn aml yn cael eu hailasesu yn sgil diffyg gwybodaeth.

- Ni chaiff y cynlluniau addysg unigol a ddefnyddir yn yr ystâd ddiogel eu defnyddio ddigon wrth i bobl ifanc ddychwelyd i'r gymuned.

- Nid yw staff addysg yn yr ystâd ddiogel bob amser yn cyfarfod â chynrychiolwyr TTIau i gynllunio rhyddhau person ifanc i'r gymuned. Golyga hyn na all y person ifanc bontio'n effeithiol ac uniongyrchol i leoliad addysg a hyfforddiant arall.  Nid yw hyn yn unol â gofynion y BCI ac mae'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn aildroseddu.

- Yn gyffredinol, mae pobl ifanc dan oruchwyliaeth TTIau yn y gymuned ac yn LASCH Hillside yn cael arweiniad a chefnogaeth rheolaidd a defnyddiol gan ymgynghorwyr gyrfaoedd.  Fodd bynnag, nid yw pobl ifanc yn y ddalfa yn Lloegr yn cael arweiniad a chymorth priodol o ran gyrfaoedd.

- Mae gormod o weithwyr addysg mewn TTIau nad ydynt yn cael digon o ddylanwad ar AALlau ac ysgolion. Ychydig iawn ohonynt sy'n athrawon cymwys. Golyga hyn nad oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon da o'r angen am asesiadau priodol o anghenion pobl ifanc mewn medrau sylfaenol. Nid yw llawer o weithwyr addysg yn cael goruchwyliaeth gan reolwyr eu AALlau neu hyfforddiant penodol ar gyfer eu rôl.

- Nid yw'r rhan fwyaf o AALlau yn diwallu eu dyletswydd statudol i gynnig 25 awr bob wythnos o addysg neu weithgaredd dan oruchwyliaeth i bobl ifanc wedi'u gwahardd.

- Mae cynlluniau cyfiawnder ieuenctid TTIau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn amrywio o ran ansawdd. Ceir ynddynt ddiffyg manylder penodol a thargedau mesuradwy a cherrig milltir tuag at darged y BCI o gynnwys 90% o bobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth amser llawn.

- Er bod staff TTI yn dangos ymwybyddiaeth o PPIau ac yn mynd i gyfarfodydd y bartneriaeth, hyd yma ychydig gyfraniad y mae'r PPIau wedi'i wneud i gynnig 25 awr o addysg a hyfforddiant priodol i bobl ifanc.

- Mae'r cynlluniau blynyddol y mae TTIau yn eu paratoi ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn amrywio o ran ansawdd. Nid oes gan y mwyafrif dargedau mesuradwy digon manwl a phenodol i wella addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc. Ychydig iawn o'r cynlluniau hyn sy'n dangos sut mae'r TTI yn bwriadu mynd i'r afael â'r anawsterau ynghylch rhoi'r bobl ifanc hyn mewn addysg a hyfforddiant priodol.

## Y bobl ifanc

16. Mae llawer o'r bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid wedi cael profiad gwael yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae ganddynt hanes o bresenoldeb gwael ac mae llawer ohonynt wedi cael eu gwahardd o'r ysgol. Mae gan y rhan fwyaf anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol ac maent yn ei chael hi'n anodd dod ymlaen gyda phobl eraill. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau sylfaenol gwael, yn aml oherwydd eu presenoldeb gwael yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae yna hefyd rai pobl ifanc sy'n cyflawni'n uchel yn yr ysgol.

## Darpariaeth addysgol a hyfforddiant

### Pa mor dda mae pobl ifanc yn cyflawni?

17. At ei gilydd, mae pobl ifanc yn yr ystâd ddiogel yn cyflawni'n dda. Fodd bynnag, ni wyddom pa mor dda y gwna'r bobl ifanc hyn pan fyddant yn dychwelyd i'r gymuned neu'n parhau yn y gymuned dan oruchwyliaeth y TTI.

18. Pan fydd dysgwyr yn mynd i'r ystâd ddiogel, yn aml mae ganddynt anawsterau dysgu, personol a chymdeithasol difrifol sydd wedi cael effaith negyddol ar eu cyflawniad a'u cyrhaeddiad. Yn aml iawn, eu hamser yn y ddalfa yw'r tro cyntaf iddynt erioed fynychu addysg a hyfforddiant rheolaidd. Ar y cyfan, maent yn awyddus i fynychu dosbarthiadau gan fod hyn yn eu galluogi i gymysgu â phobl ifanc eraill ac felly lleddfu'r diflastod o fod yn y ddalfa. Mae'r presenoldeb rheolaidd hwn yn rhoi'r parhad sydd ei angen arnynt i ddysgu'n llwyddiannus a mynd i'r afael â'r bylchau yn eu medrau sylfaenol. Yn ei dro, rhydd hyn yr hyder y mae arnynt ei angen i symud ymlaen at ddysgu pellach. Dechreua'r rhan fwyaf o bobl ifanc ddatblygu'r medrau angenrheidiol y mae arnynt eu hangen i gael mynediad i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Maent yn cymryd camau bach ond arwyddocaol iawn wrth gael eu hailgynnwys mewn dysgu. I lawer o ddysgwyr, dyma'r tro cyntaf iddynt gyflawni cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae llawer ohonynt yn cyflawni ystod o ddyfarniadau a gydnabyddir yn genedlaethol fel dyfarniadau Oxford, Cambridge and Royal Society of Arts ar gyfer dyfarniadau llythrennedd a rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a dyfarniadau'r rhwydwaith coleg agored mewn paratoi galwedigaethol. Mae rhan fwyaf y bobl ifanc yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn cydnabod eu cynnydd wrth ddatblygu'r gallu i ddysgu a gweithio tuag at achrediad fel ei gilydd. Yn benodol, maent yn mwynhau'r gwersi mwy ymarferol ac mae llawer ohonynt yn gweithio'n dda mewn grwpiau bach ac mewn sefyllfaoedd un-i-un. Yn gyffredinol, mae pobl ifanc yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Maent yn ymateb yn dda i'w hathrawon ac yn ymroi eu hunain yn dda i'w dysgu.

19. Nid yw pobl ifanc yn yr ystâd ddiogel yn cyflawni'n dda pan nad yw'r gwaith a osodir yn ddigon heriol. Ar adegau, mae pobl ifanc yn gorfod ailwneud gwaith maent eisoes wedi'i wneud neu lenwi taflenni gwaith hir nad ydynt wedi cael eu hysgrifennu mewn iaith sy'n hawdd i'w deall. Yn STI Ashfield, mae gormod o bobl ifanc yn aros yn eu celloedd naill ai trwy ddewis neu am nad ydynt yn cael eu hebrwng i'r bloc addysg ac nid ydynt yn mynychu addysg neu hyfforddiant. Golyga hyn eu bod yn colli'r cyfle i ddysgu i weithio gydag eraill ac ymddwyn yn briodol ac ennill medrau newydd.

20. Ychydig iawn o wybodaeth sydd gennym am safonau cyflawniad lle mae pobl ifanc sydd wedi troseddu wedi dychwelyd i'w cymuned o'r ddalfa neu'n parhau yn y gymuned dan oruchwyliaeth y TTI. Y rheswm am hyn yw bod pobl ifanc, dan oruchwyliaeth TTI, yn parhau i fod yn gyfrifoldeb yr AALl, nes iddynt gael eu pen-blwydd yn 16 oed, sef yr oed gadael ysgol statudol, neu'r Cyngor Cenedlaethol ELWa ar gyfer eu darpariaeth addysgol os ydynt dros 16 oed.[8] Mae gan y TTI gyfrifoldeb i gynnig cefnogaeth ychwanegol i bobl ifanc, mewn partneriaeth gydag eraill, ond mae cyflwyno addysg y bobl ifanc hyn yn parhau i fod yn gyfrifoldeb gwasanaethau'r brif ffrwd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd casglu data ar safonau cyflawniad y grŵp hwn o bobl ifanc gan eu bod yn mynychu ystod eang o leoliadau ar gyfer eu haddysg a'u hyfforddiant. Ar hyn o bryd, ni

[8] Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

chaiff data am gyraeddiadau neu gyflawniadau pobl ifanc dan oruchwyliaeth y TTIau ei gasglu yng Nghymru nac yn Lloegr. Golyga hyn nad oes modd arfarnu eu cynnydd ac ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant â gânt. Mae hyn yn destun pryder.

21. Er gwaethaf pwyslais ac ymgyrch y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar addysg a hyfforddiant amser llawn i bobl ifanc sy'n troseddu, dim ond dau o'r 13 dangosydd perfformiad y mae'r TTIau yn adrodd yn eu herbyn i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sy'n cyfeirio mewn rhyw ffordd at addysg. Dyma nhw:
    - sicrhau bod yr holl (100%) gynlluniau hyfforddiant cychwynnol ar gyfer pobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant yn cael eu llunio o fewn y graddfeydd amser a bennwyd gan Safonau Cenedlaethol; a
    - sicrhau bod 90% o droseddwyr ifanc dan oruchwyliaeth TTIau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn.
22. Mae'r targedau hyn yn briodol am nad oes llawer o'r bobl ifanc sy'n troseddu mewn addysg a hyfforddiant amser llawn. Fodd bynnag, nid yw'r targedau hyn yn gofyn i TTIau osod disgwyliadau uchel ar bobl ifanc i gyflawni canlyniadau da pan fyddant yn dychwelyd i ddysgu.

23. Yn ogystal, ni wna'r fframwaith arolygu TTI unrhyw beth i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth hwn am safonau cyflawniad mewn addysg a hyfforddiant. Mae'r fframwaith arolygu'n cynnwys cwestiynau am y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc dan oruchwyliaeth y TTI, a'r rhyngwyneb rhwng y TTI a darparwyr addysg a gweithwyr prosiect. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys cwestiynau am ansawdd yr addysg a ddarperir, y safonau a gyflawnir neu'r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc. Mae arolygiadau o TTIau yn archwilio cyfraniad partneriaid a'u cydymffurfiaeth â'u dyletswydd statudol i gyfrannu at y bartneriaeth TTI. Nid oes arolygiad uniongyrchol o'r sefydliadau partner eu hunain. Ni lunia'r adroddiadau farn am ansawdd darpariaeth gwasanaeth partner, ond cynigiant sylwadau ynghylch pa mor dda mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r TTI a pha mor dda maent yn gweithio gyda phobl ifanc ac yn eu cefnogi.

24. Gall TTIau arfarnu canlyniadau mewn dysgu mwy anffurfiol fel Cynllun Gwobr Dug Caeredin. Y rheswm am hyn yw bod TTIau yn trefnu'r cyfleoedd hyn eu hunain gyda phartneriaid yn y gymuned fel y gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes a'r coleg lleol. Ceir llawer o enghreifftiau o ganlyniadau da ar gyfer pobl ifanc. Er enghraifft, gweithia TTI Conwy/Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Choleg Garddwriaeth Cymru i gynnig cwrs llwyddiannus mewn cadwraeth mewn gwarchodfa adar yr RSPB gyda chanlyniadau da ar lefel mynediad. Gweithia TTI Merthyr yn agos mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuenctid. Ym Merthyr, gall gweithwyr TTI fynd at Swyddog Gwobr Dug Caeredin ac unrhyw arbenigedd arall sydd gan y 22 o weithwyr ieuenctid. Y llynedd, cefnogwyd tri pherson ifanc o'r TTI gan y gwasanaeth ieuenctid i gymryd rhan mewn mordaith llongau uchel. Arweiniodd hyn at ganlyniadau cadarnhaol iawn. Manteisiodd y bobl ifanc a gwnaethant gynnydd sylweddol wrth lwyddo i reoli eu

hymddygiad.  Gwna TTI Wrecsam ddefnydd da o fentor sy'n baffiwr cicio profiadol.  Defnyddia'i sesiynau'n effeithiol gyda'r bobl ifanc i fynd i'r afael â materion fel rheoli dicter, hylendid personol, ffitrwydd corfforol a'r gallu i ddod ymlaen gyda phobl eraill a gweithio gyda nhw.  Mae'r rhaglen hon yn cyfrannu at gymhwyster ASDAN.  Yn ogystal, gwna TTI Wrecsam ddefnydd da o Ymddiriedolaeth y Tywysog i gyflwyno rhaglenni effeithiol i bobl ifanc.  Yn aml, mae'r rhaglenni hyn yn profi'n drobwynt cadarnhaol ym mywydau pobl ifanc ac yn eu symud ymlaen yn llwyddiannus at hyfforddiant arall neu gyflogaeth.

## Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r dysgu?

25. Cynigia'r rhan fwyaf o'r athrawon ar draws yr ystâd ddiogel brofiadau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc.  Lle mae'r addysgu'n dda neu'n well, mae'r athrawon yn sefydlu perthnasoedd da iawn gyda phobl ifanc ac yn dod i'w hadnabod yn dda iawn.  Maent yn delio â grwpiau ac unigolion eithriadol o anodd yn fedrus, yn aml trwy wneud defnydd da o hiwmor.  Defnyddiant eu gwybodaeth am bynciau i ddod â thestunau'n fyw ac i'w gwneud yn ddiddorol i bobl ifanc.  Gwna athrawon ddefnydd da o asesu cychwynnol i gynllunio'u gwersi i gyfateb gwaith yn dda i alluoedd, anghenion a diddordebau pobl ifanc.  Maent yn archwilio cynlluniau dysgu unigol yn rheolaidd ac yn adolygu targedau'r bobl ifanc ar ddiwedd pob gwers.  Maent yn rhoi adborth da i bobl ifanc ar eu gwaith ac ar eu hymddygiad.  Mae athrawon yn gosod pwyslais cryf ar wella medrau sylfaenol, allweddol a bywyd y bobl ifanc.  Gwna cynorthwywyr cymorth dysgu gyfraniadau gwerthfawr at wersi ac maent yn cymryd rhan yn eu cynllunio.

26. Lle mae'r addysgu'n anfoddhaol, nid yw'r athrawon yn gosod gwaith digon heriol.  Ni wnânt ddefnydd digonol o asesu cychwynnol i lywio'u cynllunio neu i osod targedau dysgu unigol penodol ar gyfer gwaith neu ymddygiad.  Mewn ychydig achosion, nid yw athrawon yn marcio gwaith yn ddigon gofalus i ddangos i'r bobl ifanc yr hyn y mae'n rhaid iddynt wneud i wella canlyniadau.  Yn y gwersi llai effeithiol, ni wna athrawon ganlyniadau'r wers yn glir i bobl ifanc ac maent yn dibynnu'n rhy drwm ar daflenni gwaith.  Nid yw'r taflenni gwaith hyn bob amser yn ddealladwy i bobl ifanc nad ydynt yn darllen yn dda.  Nid yw rhai athrawon yn amseru'r gwersi'n dda ac maent yn colli sylw pobl ifanc tua diwedd y wers.  Nid yw cynorthwy-wyr cymorth dysgu neu weithwyr gofal preswyl yn gweithio'n ddigon agos gyda'r athrawon.

## Pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn cwrdd ag anghenion a diddordebau pobl ifanc?

27. Er nad oes rhwymedigaeth statudol i gynnig y cwricwlwm cenedlaethol yn yr ystâd ddiogel, mae o fantais glir i bobl ifanc o oed ysgol statudol i gynnal parhad addysgol lle bo'n bosibl.  I roi'r cyfle mwyaf iddynt ddychwelyd i ysgol y brif ffrwd yn llwyddiannus, mae'n arfer dda i seilio rhaglenni addysgol ar raglenni astudio'r cwricwlwm cenedlaethol.  Fodd bynnag, ni chynllunnir ar gyfer hyn gan sefydliad troseddau ieuenctid (STI)

Parc, a'r ddau STI yn Lloegr, Ashfield a Stoke Heath, er eu bod yn addysgu niferoedd sylweddol o bobl ifanc o Gymru o oed ysgol statudol. Yn ogystal, mae'r gofynion astudio yn wahanol yng Nghymru a Lloegr ac ni chynllunnir ar gyfer hyn yn y STIau lle ceir niferoedd arwyddocaol o bobl ifanc o Gymru.

28. Yng Nghymru a Lloegr, nid yw'r staff addysgu yn yr ystâd ddiogel, ac eithrio yn y LASCH Cymreig, Hillside, yn ymwybodol o fanteision y Cwricwlwm Cymreig. Dyma ddarpariaeth y cyfleoedd yn y cwricwlwm i bobl ifanc ddatblygu dealltwriaeth o'u hunaniaeth Gymreig a materion diwylliannol. Nid oes un o'r lleoliadau diogel, gan gynnwys Hillside, yn cynnig Cymraeg fel ail iaith. Nid yw pobl ifanc sy'n medru'r Gymraeg yn gallu cael mynediad i'r iaith yn y gwersi. Ar adegau, gallant ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol gyda staff sy'n medru'r Gymraeg. Nid yw rheolwyr ac athrawon yn gyfarwydd â dogfennau'r cwricwlwm Cymreig ac ni wyddant ble i fynd i gael adnoddau addas. Golyga hyn nad yw pobl ifanc dan 16 oed yn yr ystâd ddiogel yn cael eu hawl i ddysgu'r Gymraeg ac nid yw pobl ifanc Cymreig yn cael eu hawl i ddysgu am natur nodedig ac amrywiol yr hunaniaeth Gymreig. Gall hyn fod o anfantais bellach iddynt wrth ddychwelyd i'w cymuned.

29. Mae llawer o bobl ifanc â chyrhaeddiad isel yn yr ystâd ddiogel yn elwa ar gyrsiau achredededig sy'n cynnwys digon o gamau bach o gyflawniad i'w hysgogi. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i bobl ifanc weithio ar gyfer achrediad sydd y tu hwnt i lefel sylfaen neu i gael eu hachredu am eu gwaith ar fedrau bywyd ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Lle mae pobl ifanc yn dechrau cyrsiau achrededig yn yr ystâd ddiogel, nid yw llawer ohonynt yn cael y cyfle i'w gorffen pan fyddant yn gwneud eu gorchymyn carcharu a hyfforddi yn ôl yn y gymuned dan oruchwyliaeth y TTI.

30. Prin y mae athrawon yn yr ystâd ddiogel yn cael gwybodaeth ansawdd da am gyflawniadau blaenorol pobl ifanc ac asesiadau a gynhaliwyd mewn sefydliadau eraill. Maent yn ei chael hi'n hynod anodd cael copïau o ddatganiadau pobl ifanc o anghenion addysgol arbennig. Gwna hyn cynllunio effeithiol yn anodd ac mae athrawon yn gorfod treulio amser gwerthfawr yn asesu medrau sylfaenol pobl ifanc cyn y gallant ddechrau eu rhaglenni. Yn ogystal, pan na chaiff gwybodaeth a geir gan brofi diagnostig ei throsglwyddo, gallai arwain at ddyblygu profion yn ddiangen neu osod gwaith ar gyfer pobl ifanc ar y lefel anghywir. Mae athrawon yn yr ystâd ddiogel yn gorfod ailasesu pobl ifanc. Mae hyn nid yn unig yn ddiangen ond mae hefyd yn rhoi gormod o bwysau ar y dysgwr a chaiff amser gwerthfawr ei wastraffu.

31. Yn gyffredinol, mae athrawon yn asesu medrau sylfaenol pobl ifanc yn drylwyr wrth iddynt fynd i'r ystâd ddiogel. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y wybodaeth ddefnyddiol hon bob amser i lywio cynllunio'r athrawon i gyfateb gwaith i allu ac anghenion y bobl ifanc. Yn STI Parc, nid yw'r athrawon yn ymwybodol o strategaethau addysgu priodol ar gyfer datblygu medrau sylfaenol pobl ifanc.

## Ansawdd y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd y mae pobl ifanc yn eu cael

32. Yn gyffredinol, mae staff TTIau a staff yr ystâd ddiogel yn sefydlu perthnasoedd da iawn gyda phobl ifanc. Caiff pobl ifanc eu trin gyda pharch ac mae'r staff yn eu hadnabod yn dda iawn. Mae'r staff yn rhoi sylw da iawn i anawsterau personol pobl ifanc sy'n rhwystro'u gallu i gymryd mantais lawn ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae'r rhain yn cynnwys materion tai, iechyd a budd-daliadau. Ni ddefnyddir y cynlluniau dysgu unigol, a ddefnyddir yn yr ystâd ddiogel, yn effeithiol i barhau a chynllunio addysg a hyfforddiant pellach pan fydd pobl ifanc yn cael eu rhyddhau i wneud y rhan olaf o'u gorchymyn carcharu a hyfforddi yn y gymuned.

33. Nid yw staff addysg a chynrychiolwyr TTIau bob amser yn mynd i'r holl gyfarfodydd, cynllunio neu adolygu ar gyfer gorchmynion cadw a hyfforddiant. Nid yw hyn o fudd o gwbl pan mae'n agos i'r dyddiad y bydd pobl ifanc yn cael eu rhyddhau i'r gymuned. Golyga hyn nad yw pobl ifanc yn gallu pontio mewn ffordd sydd wedi'i gynllunio na phontio'n syth i leoliad addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwyrach na chaiff gwybodaeth werthfawr ei throsglwyddo am y cyrsiau y mae'r person ifanc wedi bod yn eu dilyn. Nid yw'r cyswllt gwael hwn rhwng yr ystâd ddiogel a'r TTIau yn unol â gofynion y BCI. Mae'r diffyg cynllunio ar gyfer pontio'n golygu nad yw pobl ifanc yn cael eu cadw'n brysur cyn gynted ag y byddant yn dychwelyd i'r gymuned. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y byddant yn aildroseddu. Mewn ychydig achosion, gweithia'r bobl ifanc ar lefel uwch yn yr ystâd ddiogel ac yna fe'u rhoddir ar gyrsiau ar lefel is pan fyddant yn dychwelyd i'r gymuned.

34. Er enghraifft, mynychodd arolygwyr adolygiadau terfynol tri dyn ifanc o Gymru, yr oeddent ar fin gadael y ddalfa, ond nad oedd ganddynt gynllun clir ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gofynnwyd iddynt fynd i'w swyddfa TTI yn ystod yr wythnos yn dilyn eu rhyddhau fel y gellir gwneud cynlluniau. Yn aml, mae gan TTIau drefniadau gweithio da iawn gyda chwmnïau Gyrfa Cymru. Yn gyffredinol, caiff pobl ifanc dan oruchwyliaeth y TTI yn y gymuned ac yn LASCH Hillside gyfarwyddyd rheolaidd a defnyddiol gan ymgynghorwyr Gyrfa Cymru. Fodd bynnag, yn yr ystâd ddiogel, nid yw pobl ifanc yn cael addysg a chyfarwyddyd priodol ar yrfaoedd. Nid yw ymgynghorwyr Gyrfa Cymru yn ymweld â nhw yn sgil cyfyngiadau ar adnoddau ac amser. Nid oes trefniant cilyddol gyda Connexions i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn cael y cyngor a'r cyfarwyddyd priodol ar yrfaoedd. Golyga hyn nad yw pobl ifanc yn gallu gwneud dewisiadau a chynlluniau deallus ar gyfer gyrfaoedd neu opsiynau yn y dyfodol.

## Rôl y gweithiwr addysg TTI

35. Nod TTIau yw cael y bobl ifanc i ymweud ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn fel y gallant baratoi ar gyfer dyfodol mwy cynhyrchiol. I gefnogi'r nod hwn, mae prif swyddogion addysg yr

awdurdodau lleol yn enwebu gweithiwr addysg amser llawn i weithio'n amser llawn gyda'r TTI. Yn aml, mae'r gweithwyr hyn yn swyddogion lles addysg neu'n weithwyr ieuenctid. Mae'r gweithwyr hyn yn aml yn fedrus iawn wrth gefnogi pobl ifanc, maent yn adnabod ysgolion lleol a'u hathrawon yn dda ac mae ganddynt wybodaeth ymarferol dda am gyfleodd ffurfiol ac anffurfiol i ddilyn cwricwlwm angen yn yr ardal. Fodd bynnag, prin y maent yn athrawon cymwys. Golyga hyn nad oes ganddynt bob amser ddealltwriaeth dda o'r angen am asesiadau priodol o anghenion pobl ifanc mewn medrau sylfaenol na ble i'w caffael. Mae gormod o'r gweithwyr hyn heb yr hynafedd yn yr awdurdod addysg lleol i roi'r statws iddynt maent yn teimlo y mae arnynt ei angen wrth ddelio â phenaethiaid er mwyn dod o hyd i leoedd ysgol ar gyfer y bobl ifanc hyn. Mae hyn yn hynod anodd pan fydd pobl ifanc wedi cael eu gwahardd. Nid yw llawer ohonynt yn cael goruchwyliaeth gan eu rheolwyr yn yr awdurdod addysg lleol ac nid oes hyfforddiant penodol ar gyfer y gweithwyr hyn.

## Rôl yr AALl

36. Mae Adran 19 Deddf Addysg 1996 yn nodi:
'Each local education authority shall make arrangements for the provision of suitable education at school, or otherwise than at school, for those children of compulsory age who, by reason of illness, exclusion from school or otherwise, may not for any period receive suitable education unless such arrangements are made for them'.

37. Yn ogystal, rhaid i AALlau ystyried y cyfarwyddyd a ddosbarthwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (cylchlythyr CCC 3/99: Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol).

38. Er mis Medi 2002, mae'r cyfarwyddyd hwn wedi mynnu bod AALlau yn sicrhau bod pob disgybl sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol am fwy na 15 diwrnod yn cael addysg amser llawn a phriodol.

39. Gallai'r ddarpariaeth hon ar gyfer disgyblion unigol gynnwys cyfuniad o:

- bresenoldeb rhan-amser yn ysgol y brif ffrwd;
- gwersi mewn uned cyfeirio disgyblion neu uned debyg;
- darpariaeth a wneir gan fudiadau gwirfoddol;
- lleoliadau mewn colegau AB;
- lleoliadau gwaith; a
- gwersi yn y cartref.

40. Mae'r cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru[9] yn nodi:

'mae addysg amser llawn yn golygu y dylai'r swm o addysg dan oruchwyliaeth adlewyrchu'r swm a ddarperir gan ysgolion prif ffrwd yr ardal. Gallai'r wythnos

[9] Cylchlythyr 3/99 Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol, Medi 1999

ysgol arferol gyfrif i ryw 25 awr; felly dylai disgyblion wedi'u gwahardd gael rhyw bum awr o addysg neu weithgaredd arall dan oruchwyliaeth bob dydd. Fodd bynnag, gallai amserlen lawn ar gyfer disgybl wedi'i wahardd edrych dipyn yn wahanol i'r amserlen a ddarperir mewn ysgol yn y brif ffrwd.
Nid oes model unigol o ddarpariaeth a fyddai'n gweddu i anghenion pob disgybl. Nid oes rhaid i AALlau ddarparu'r Cwricwlwm Cenedlaethol llawn i'r disgyblion hyn. Fodd bynnag, rhaid i AALlau wneud trefniadau i gynnig cwricwlwm eang a chytbwys.

41. Fodd bynnag, darganfu arolwg diweddar Estyn o unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth debyg[10] nad yw o leiaf dwy ran o dair o awdurdodau yng Nghymru yn gallu cyfrif yn systematig ar gyfer y ddarpariaeth a wnânt, ac weithiau ynghylch ble mae'r rhan fwyaf o'u disgyblion nad ydynt ar gofrestrau ysgol. Fel rheol, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, a disgyblion iau yn y ddwy ran o dair o awdurdodau sy'n weddill, yn cael addysg amser llawn pan na fyddant yn gallu mynd i'r ysgol. I rai, lleoliad uned rhan-amser yw'r unig ddarpariaeth addysgol. I eraill, yn enwedig y rheiny yng nghyfnod allweddol 4, mae'n rhan o raglen cwricwlwm amgen a allai gynnwys gweithgareddau hamdden, coleg neu waith. Fodd bynnag, ychydig iawn o awdurdodau a all arddangos eu bod yn cynnig yr hawl llawn o 25 awr ar gyfer pob disgybl wedi'i wahardd. Mewn rhai awdurdodau, nododd y swyddogion nad oeddent yn gallu fforddio cynnig y ddarpariaeth hon. Mae swyddogion yn cael anhawster penodol wrth olrhain rhai o'u disgyblion mwyaf agored i niwed diamddiffyn, gan gynnwys plant a phobl ifanc mewn teuluoedd heb gartref parhaol a'r rheiny sy'n byw mewn llochesau.

42. Yn ogystal, nid yw AALlau yn gallu mynnu bod ysgolion yn derbyn yn ôl disgyblion a waharddwyd ganddynt. Mae AALlau yn mynychu cyfarfodydd y panelau apelio ar waharddiadau parhaol er mwyn sicrhau y ceir cydbwysedd da o safbwyntiau a dealltwriaeth gynyddol o'r angen am gynhwysiant cymdeithasol. Fodd bynnag, ni allant roi cyflwyniadau a gallant ateb y cwestiynau gan y panel apelio yn unig. Mae p'un ai y caiff y person ifanc ei wahardd yn barhaol ai peidio yn gwbl ddibynnol ar ethos a rhagdueddiad y panel apelio sy'n gwneud y penderfyniad terfynol. Mae ei benderfyniad yn rhwymo'r rhiant, y person ifanc, y corff llywodraethol, y pennaeth a'r AALl.

43. Mae diffyg y ddarpariaeth 25 awr hon ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u gwahardd o'u hysgolion ac anallu'r AALlau i fynnu bod person ifanc yn parhau yn ei ysgol, yn ei gwneud hi'n anodd iawn i'r TTIau gwrdd â tharged y BCI i gynnwys 90% o bobl ifanc mewn addysg amser llawn. Yn ogystal, mae'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd pobl ifanc yn troseddu eto gan nad ydynt yn cael eu cadw'n brysur yn ystod y dydd.

## Defnyddio cynllunio cyfiawnder ieuenctid TTI ar gyfer materion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

[10] Arolwg thematig o unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth debyg, Estyn 2004

44. Mae'r cynlluniau cyfiawnder ieuenctid y mae'r TTIau wedi'u llunio ar gyfer 2004/5 o ansawdd amrywiol. Yn gyffredinol, ceir ynddynt ddiffyg manylder a thargedau mesuradwy penodol ar gyfer y camau a nodwyd i fynd i'r afael â sut byddant yn cwrdd â tharged y BCI o gynnwys 90% o bobl ifanc yn amser llawn mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Ychydig iawn o'r cynlluniau hyn sy'n cysylltu â chynlluniau strategol eraill awdurdodau lleol neu'n dangos sut mae'r TTI yn bwriadu mynd i'r afael â'r anawsterau ynghylch lleoli'r bobl ifanc hyn mewn addysg a hyfforddiant priodol. Gweler Atodiad 1.

## Defnydd ac ymwybyddiaeth o'r Partneriaethau Pobl Ifanc

45. Mae TTIau yn dangos ymwybyddiaeth o'r PPIau a'u rôl bosibl wrth sicrhau bod pobl ifanc sy'n troseddu yn cael cyfleoedd addysg a hyfforddiant priodol. Fodd bynnag, hyd yma ni cheir digon o gydweithio effeithiol gyda PPIau. Hyd yn hyn, ychydig gyfraniad y mae'r PPIau wedi'i wneud i ddarparu 25 awr o addysg a hyfforddiant priodol ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu. Yn gyffredinol, nid yw PPIau eto wedi defnyddio'r partneriaethau i dargedu'r grðp hwn o bobl ifanc ac i wella eu mynediad i wasanaethau'r brif ffrwd.

46. Mae cynlluniau cyfiawnder ieuenctid 16 o'r 17 TTI yng Nghymru yn cyfeirio at weithio gyda PPIau. Mae'r cyfeiriadau hyn yn nodi'n bennaf y grðp y mae'r TTI yn aelod ohono yn hytrach na'r gweithgareddau penodol a gyflawnir. Ceir yn y cynlluniau ddiffyg manylion penodol ynghylch sut bydd y PPI yn eu helpu i gyflawni eu targedau ar gyfer addysg a hyfforddiant. Cyfeiria pum TTI at gael eu cynrychioli ar is-grwpiau ataliad y PPIau, ond ni roddant fanylion pellach.

47. Mae cynllun cyfiawnder ieuenctid TTI Sir Benfro yn cyfeirio at waith a gynhaliwyd gan y PPI i archwilio'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar draws yr awdurdod trwy ymgynghori â phobl ifanc. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at fentrau lleol i wella'r ddarpariaeth addysg. O ganlyniad, nid yw Sir Benfro yn un o'r TTIau sy'n rhestru diffyg y ddarpariaeth addysgol 25 awr fel un o'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar ei dargedau ar gyfer addysg a hyfforddiant.

48. Tri TTI yn unig, sef Merthyr, y Fro a RhCT sy'n cyfeirio at gynllun y PPI a'u hymglymiad yn y broses gynllunio.

## Materion Allweddol

49. Er mwyn gwneud cynnydd pellach ar lefel genedlaethol, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ystyried, lle bo hynny'n briodol:

- casglu data ar wahân ar gyflawniad y grðp o bobl ifanc dan oruchwyliaeth y TTIau;

- gofyn i TTIau gasglu data ar safonau cyflawniad pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant;

- adolygu safonau'r TTI i gynnwys cwestiynau am ansawdd yr addysg a'r canlyniadau addysgol ar gyfer pobl ifanc sy'n parhau yn y gymuned neu'n dychwelyd iddi dan oruchwyliaeth y TTI;

- cynnig hyfforddiant, gwybodaeth, cefnogaeth a strwythur rheoli priodol ar gyfer gweithwyr addysg fel eu bod yn fwy hyderus wrth ddelio â swyddogion yr AALl ac ysgolion;

- sicrhau bod AALlau yn gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a TTIau i gynnig addysg amser llawn i'r holl ddisgyblion dan oed ysgol statudol;

- gwella ansawdd cynlluniau cyfiawnder ieuenctid TTI ar gyfer addysg a hyfforddiant;

- sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn cael eu defnyddio nid yn unig yn yr ystâd ddiogel, ond hefyd yn cael eu trosglwyddo i leoliadau addysg a hyfforddiant pobl ifanc pan fyddant yn dychwelyd i'r gymuned;

- gwneud yn siwr bod pobl ifanc o Gymru mewn STIau yn Lloegr yn cael cefnogaeth a chyfarwyddyd priodol gan ymgynghorwyr gyrfaoedd;

- cryfhau rôl y PPIau wrth gynnig 25 awr o addysg a hyfforddiant priodol ar gyfer pobl ifanc.

- annog STIau yn Lloegr, lle ceir niferoedd sylweddol o bobl ifanc o Gymru, ac STIau yng Nghymru i gynllunio gwaith yn unol â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer pobl ifanc o Gymru sydd dan yr oed gadael ysgol statudol; ac

- annog staff addysgu, ar draws yr ystâd ddiogel yng Nghymru a lle ceir niferoedd sylweddol o bobl ifanc o Gymru yn yr ystâd ddiogel yn Lloegr, i gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig ac addysgu'r Gymraeg.

50. Wrth ddarparu addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc, dylai'r ystâd ddiogel:

- wneud yn siwr bod yr holl bobl ifanc yn cael addysg a hyfforddiant priodol;

- gosod targedau priodol a mesuradwy ar gyfer gwaith ac ymddygiad;

- ehangu cyfleoedd pobl ifanc i gymryd cyrsiau lefel uwch a chael eu hachredu ar gyfer gwaith ar fedrau bywyd;

- cryfhau'r cyswllt rhwng yr ystâd ddiogel a chyn leoliadau addysg a hyfforddiant pobl ifanc, fel bod ansawdd y wybodaeth a ddarperir yn gwella;

- gwella addysgu i gyfateb gwaith yn fwy gofalus i allu, anghenion a diddordebau'r bobl ifanc;

- sicrhau bod staff addysg a chynrychiolwyr TTI bob amser yn cyfarfod â'i gilydd i gynllunio rhyddhau person ifanc i'r gymuned yn ofalus, defnyddio'r cynlluniau dysgu unigol a chynllunio'n fwy gofalus ar gyfer parhad a dilyniant addysgol;

- gwneud mwy o ddefnydd o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru wrth gynllunio gwaith ar gyfer pobl ifanc o oed ysgol statudol;

- rhoi sylw i'r Cwricwlwm Cymreig a chyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg; a

- gwneud yn siwr bod gan y staff hyfforddiant priodol er mwyn addysgu medrau sylfaenol.

51. Wrth weithio gyda phobl ifanc yn y gymuned, dylai TTIau:

- ddod o hyd i ffyrdd i hyfforddi gweithwyr addysg i asesu medrau sylfaenol pobl ifanc;

- gweithio'n agosach â'r ystâd ddiogel i ddarparu rhyddhau wedi'i gynllunio ar gyfer pobl ifanc;

- defnyddio'r cynlluniau dysgu unigol o'r ystâd ddiogel i gynllunio addysg a hyfforddiant pellach ar gyfer pobl ifanc wrth iddynt gael eu rhyddhau;

- gwella ansawdd cynlluniau cyfiawnder ieuenctid TTIau i gynnwys mwy o fanylder penodol a thargedau ar gyfer codi nifer yr oriau y mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn addysg a hyfforddiant amser llawn; a

- gweithio'n agosach gyda PPIau.

## Atodiad 1

**Cynlluniau Blynyddol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer TTIau Cymru 2004/5**

**Darparu'r hawl o ddau ddeg pump awr o addysg amser llawn a phriodol**

Mae naw o'r 17 TTI yn nodi bod diffyg y ddarpariaeth 25 awr yn gyfyngiad sy'n rhwystro'r TTI rhag cyrraedd ei darged ar gyfer addysg. Dyma nhw:

- Casnewydd;
- Canolbarth Cymru;
- Abertawe;
- Bro Morgannwg;
- Sir y Fflint;
- Conwy/Sir Ddinbych;
- Blaenau Gwent/Caerffili;
- Pen-y-bont ar Ogwr; a
- Chaerdydd

Mae Sir Gaerfyrddin a Gwynedd yn llai penodol. Fodd bynnag, cyfeiria Sir Gaerfyrddin at anawsterau a rhwystrau a chyfeiria Gwynedd at yr angen i wneud mwy o waith.

**Gweithio gydag AALlau**

Ar hyn o bryd, mae 6 TTI yn gweithio ar ystod o brotocolau gyda'u AALlau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- darpariaeth addysg 25 awr (TTI Castell-nedd Port Talbot);
- rhannu gwybodaeth gydag ysgolion (TTIau Sir Benfro, Blaenau Gwent/Caerffili);
- gweithio gydag asiantaethau eraill (TTI Sir Gaerfyrddin);
- gweithio gyda'r AALl (TTI Sir Fynwy/Torfaen); a
- rhaglenni addysg ar gyfer pobl ifanc ar Raglenni Goruchwylio a Gwyliadwriaeth Dwys (TTI y Fro)

Dim ond 4 TTI sy'n gwneud cysylltiadau â chynlluniau AALlau fel y cynllun strategol addysg a'r cynllun cefnogi ymddygiad.

**Mynediad i gyflogaeth a hyfforddiant**

Mae 4 TTI yn nodi anawsterau wrth ddod o hyd i leoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc. Dyma nhw:

- Castell-nedd Port Talbot;
- Bro Morgannwg;
- Rhondda Cynon Taf; a
- Phen-y-bont ar Ogwr.

Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw gamau penodol yn y cynlluniau i wella'r ddarpariaeth.

**Gweithio gyda Gyrfa Cymru**

Dim ond pump TTI sy'n cyfeirio at weithio gyda Gyrfa Cymru i roi cyfarwyddyd rheolaidd i bobl ifanc. Cyfeiria 3 TTI at ddatblygu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Gyrfa Cymru. Dyma nhw:

- Wrecsam;
- Sir y Fflint; a
- Blaenau Gwent/Caerffili

Mae Merthyr, Caerdydd a Chasnewydd eisoes yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru.

**CCAH a'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19**

Dim ond tri TTI sy'n cyfeirio at eu gwaith gyda CCAH a'r Rhwydweithiau 14-19 oed. Dyma nhw:

- Sir Fynwy/Torfaen,;
- Blaenau Gwent/Caerffili ; a
- Phen-y-bont ar Ogwr.

**Strategaeth Troseddwyr Ieuenctid Cymru Gyfan**

Dim ond 2 TTI sy'n cyfeirio at Strategaeth Troseddwyr Ieuenctid Cymru Gyfan a sut mae'n gysylltiedig â'u gwaith. Dyma nhw:

- Casnewydd; a
- Chastell-nedd Port Talbot.